

Cwm Arian Renewable Energy

Swyddog Prosiect Nyfer Am Byth

Mae Cwm Arian Renewable Energy (CARE) yn gymdeithas budd cymunedol wedi'i lleoli yng Nghrymmych, Sir Benfro. Ein gweledigaeth yw gweld 'cymunedau ffyniannus, wedi'u cysylltu â natur a'i gilydd, yn mwynhau amgylcheddau sy'n llawn bywyd'.

Dechreuom fel grŵp o wirfoddolwyr yn rhannu diddordeb cyffredin mewn amddiffyn yr amgylchedd naturiol, cefnogi'r economi wledig leol i atal neu leddfu tlodi, a buddsoddi'r manteision o'n gweithgareddau yn lleol.

Ers 2017, rydym wedi bod yn cyflawni ein hamcanion trwy ddarparu cyngor, arweiniad, addysg a sgiliau, a rhannu cyfleoedd gydag unigolion a grwpiau cymunedol yn Sir Benfro. Mae ein gwaith wedi cael ei gydnabod trwy enwebiad Gwobr Dewi Sant fel rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol ac ennill gwobr Balchder yn Sir Benfro. Yn 2019, cododd CARE dyrbin gwynt 700kW. Mae incwm o werthu ynni adnewyddadwy, ynghyd â chyllid grant, ar hyn o bryd yn darparu trosiant o dros £400K i CARE sy'n ein galluogi i gyflawni amrywiaeth eang o brosiectau sy'n fuddiol i gymunedau yn Sir Benfro a siroedd cyfagos Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Rydym yn dîm o weithwyr rhan-amser cyfeillgar, gweithgar sy'n anelu at gydweithio a chefnogi ei gilydd i gyflawni'r gorau i'n cymuned leol a'r byd naturiol.

Rydym nawr yn chwilio am gyd-aelod tîm newydd i helpu i gyflawni cam nesaf prosiect [Nyfer Am Byth](#).

Disgrifiad Swydd

Y rôl fydd helpu i gwblhau canlyniadau'r ymgynghoriad cymunedol - data sydd wedi'i gasglu dros y 2+ blynedd diwethaf o'r prosiect - a fydd yn creu fframwaith ar gyfer cynllun rheoli dalgylch ar gyfer Afon Nyfer.

Un o'r prif dasgau yn y 6 mis nesaf fydd cyflwyno'r canlyniadau i fyrdau uchaf cyrff statudol lleol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r Parc Cenedlaethol) i gael eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i gymryd camau i wella iechyd y dalgylch (o ran afon, tir ac ymgysylltiad cymunedol), yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â'r grwpiau a'r unigolion sydd eisoes wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad i greu cynllun rheoli ymarferol ar gyfer y dalgylch.

Bydd gwaith i'w wneud ochr yn ochr â hyn hefyd, i geisio rhagor o gyllid ar gyfer cyflawni'r Cynllun Dalgylch ac ymestyn oes y prosiect i 2026 a thu hwnt.

Bydd y rôl yn cynnwys rhywfaint o gydlynw prosiectau, gan gynnwys cadw golwg ar gyllideb a thargedau'r prosiect, rheoli perthynas â chyllidwyr, yn ogystal â chyfleu cynnydd y prosiect gyda thîm a Bwrdd ehangach CARE.

Mae gan y rôl gyllid ar gyfer hyd at 2 ddiwrnod/wythnos tan fis Rhagfyr 2025, gyda chyfle da o gyllid yn y dyfodol - rydym yn agored i fabwysiadu dull hyblyg o lenwi'r rôl, felly os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi'r prosiect ond na allwch gynnig 2 ddiwrnod llawn yr wythnos, cysylltwch â ni o hyd.

Telerau swydd

Oriau = hyd at 2 ddiwrnod/wythnos (15 awr) gyda dull hyblyg yn cael ei fabwysiadu o lenwi'r rôl, lle bydd rhannu swydd, secondiad neu waith darn yn cael ei ystyried.

Cyflog = £15.60 yr awr os ydych yn gyflogedig, ynghyd â chyfraniadau pensiwn cyflogwr gofynnol statudol os ydych yn gymwys/wedi dewis. £18.57 yr awr os ydych yn llawrydd. Nodyn: Mae CARE ar hyn o bryd yn gweithredu strwythur cyflog gwastad.

Tymor y contract = yn dechrau ar unwaith os yn bosibl, gyda contract tan 31/12/25 i ddechrau.

Gwyliau = 5.8 wythnos/blwyddyn pro rata os ydych chi'n gweithio.

Treuliau = am filltiroedd, deunydd ysgrifennu ac ati. Defnydd o gerbyd cwmni ar brydles ar gael.

Caledwedd/meddalwedd = mae'r opsiwn i ddefnyddio'ch offer TG cludadwy/ffôn symudol eich hun, er y gall CARE gyflenwi offer a bydd yn cefnogi gydag anghenion meddalwedd. Darperir ap ffôn a chyfeiriad e-bost.

Lleoliad gwaith = mae parodrwydd i weithio o swyddfeydd wedi'u rhentu yng Nghrymmych yn ddelfrydol, er mwyn sicrhau cyswllt personol rheolaidd â thîm staff CARE, a rhaid i chi hefyd allu gweithio o bell ac mae rhywfaint o ofyniad i deithio i gefnogi cyflawni'r prosiect.

Sut i wneud cais

Cysylltwch â ni drwy e-bostio holly@cwmarian.org.uk i drafod y rôl hon os oes gennych ddiddordeb ond angen gwybod mwy. Os ydych chi'n barod i wneud cais, byddwn yn gofyn am y canlynol;

Anfonwch CV (uchafswm o 2 ochr A4) a llythyr eglurhaol (uchafswm o 2 ochr A4) yn

egluo sut mae eich profiad yn cwrdd â disgrifiad y swydd i admin@cwmarian.org.uk
erbyn 10yb ddydd Llun 23^{ain} Mehefin 2025.

Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd am ganlyniad eu cais ar y dyddiad hwnnw, a
chynhelir cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer **o fewn pythefnos i ddydd**
Mercher 25^{ain} Mehefin.